# FFOCWS AR: CYMRU

SECTION EXTRACTED FROM THE SURFERS AGAINST SEWAGE WATER QUALITY REPORT 2023. SCAN TO READ THE FULL REPORT, OR VISIT:

WATERQUALITY.SAS.ORG.UK

## SUT MAE CARTHION YN CAEL EI REOLI YNG NGHYMRU?

Mae dŵr yn faes cymhleth o ddatganoli yng Nghymru gan fod llawer o afonydd yn llifo rhwng Cymru a Lloegr, fel Afon Hafren ac Afon Gwy.

Mae ffiniau cwmnïau dŵr hefyd yn seiliedig ar rwydweithiau o bibellau sy'n dyddio cyn datganoli ac felly'n croesi ffiniau cenedlaethol, sy'n golygu bod llawer o orgyffwrdd rhwng polisi dŵr Cymru a pholisi dŵr Lloegr.

Mae dau gwmni yng Nghymru, a'r mwyaf ohonynt yw Dŵr Cymru, sy'n gwmni nid-er-elw ac mae'n gweithredu yng Nghymru'n unig. Hafren Dyfrdwy ydy'r cwmni arall (sy'n rhan o Severn Trent).

Mae gan Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru y pŵer i bennu'r rheoliadau amgylcheddol y dylai'r ddau gwmni eu dilyn, ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli cydymffurfiad y cwmnïau dŵr hyn â'r rheoliadau amgylcheddol hyn. Fel Lloegr, mae Cymru'n cael ei rheoleiddio'n ariannol gan Ofwat.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r cynllun 'Rheoleiddio Amgylcheddol ar Gyfer Gorlifoedd Storm: Cynllun Gweithredu'.[1] Dyma eu cynllun ar gyfer delio â gollyngiadau carthion sydd heb eu trin.

## GWIR RADDFA GOLLYNGIADAU CARTHION

Mae cyfanswm o 1,995 gorlif carthion yng Nghymru, sy'n eiddo i ddau gwmni dŵr ar wahân ac yn cael eu rheoli ganddynt; sef Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy.

Mae gan y ddau gwmni dŵr yng Nghymru gofnodion da ar gyfer monitro digwyddiadau gorlif; mae gan 100% o orlifoedd Hafren Dyfrdwy offer monitro i fesur hyd y digwyddiad gorlif, ac mae offer monitro wedi'i osod ar gyfer 99.8% o orlifoedd Dŵr Cymru.

Er bod lefelau monitro yn dda iawn, nid oes modd dweud yr un fath am faint o garthion sy'n gorlifo yng nghymru.

### FAINT O GARTHION Y MAE HAFREN DYFRDWY YN EI OLLWNG?

Gan fod Hafren Dyfrdwy yn gymharol fach o ran maint, ac yn eiddo i'r rhiant-gwmni Severn Trent (cwmni dŵr o Loegr), mae hyn yn golygu ei fod yn cael ei anwybyddu'n aml wrth ystyried seilwaith, asedau a gollyngiadau carthion yng Nghymru.

Fodd bynnag, er bod gorlifiant carthion Hafren Dyfrdwy yn 2.45% yn unig o'r cyfanswm yng Nghymru, gwnaethant 1,422 o ollyngiadau carthion yn 2022, am 10,631 o oriau. Mae hyn yn gyfartaledd o 7.5 awr ar gyfer pob gollyngiad carthion. Roedd llawer o'r safleoedd hyn yn gollwng carthion i afonydd poblogaidd, fel Afon Hafren.

O edrych ar y darlun cyflawn, efallai bod oriau gollwng carthion Hafren Dyfrdwy yn ymddangos yn fach o'i gymharu â'r 602,987 awr a gafodd eu gollwng gan Dŵr Cymru yn 2022.

Mae'r rheoleiddiwr, Cyfoeth Naturiol Cymru, wedi nodi bod rhai o'r gollyngiadau hyn yn **ANNERBYNIOL**, sy'n golygu nad yw'r cwmni dŵr wedi gwneud yr hyn a **GYTUNWYD YN EU TRWYDDED**. Yn 2022, nodwyd nad oedd Hafren Dyfrdwy yn cydymffurfio â thrwyddedau ar gyfer un o'u gorsafoedd pwmpio, gyda gorlif storm yn cael ei ollwng mewn amodau pan nad oedd storm (yn groes i'w drwydded) oherwydd 'rhwystr'.

1 (2022) Environmental regulation of overflows: action plan, accessed 26th October 2023 https://www.gov.wales/environmental-regulation-overflows-action-plan-html

Canfuwyd hefyd nad oedd asedau eraill yn cydymffurfio oherwydd eu bod wedi methu â darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan amodau gwella yn eu trwyddedau.

Ar gyfer Dŵr Cymru, canfuwyd bod 170 o orlifoedd storm trwyddedig **YN TORRI AMODAU'R DRWYDDED**, am amrywiaeth o resymau gan gynnwys methu â chyflenwi data, methu â darparu gwybodaeth am welliannau, a gwneud gollyngiadau pan nad oedd storm neu lle nad oeddent yn achosion brys. Mae Hafren Dyfrdwy a Dŵr Cymru wedi cael rhybuddion gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ac ym mis Hydref 2022 rhoddwyd dirwyon o **£8 MILIWN I DWR CYMRU A £400,000 I HAFREN DYFRDWY** gan Ofwat am eu methiant parhaus i gyrraedd targedau.

At ei gilydd, mae hyn yn cyfleu darlun o genedl sy'n llawn problemau carthion. Mae llawer o draethau ac afonydd Cymru wedi'u lleoli mewn parciau cenedlaethol, ger safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig, neu sy'n boblogaidd gyda defnyddwyr dŵr (boed wedi'u dynodi'n ddyfroedd ymdrochi swyddogol ai peidio). Er gwaethaf hyn, maent yn cael eu heffeithio gan gannoedd o filoedd o oriau o ollyngiadau carthion blynyddol — cyfanswm o 613,618 awr, sy'n cyfateb i **25,567 DIWRNOD PARHAUS O OLLYNGIADAU CARTHION YN 2022**.

**Ffigur 16**
Lleoliad ardal gwasanaeth dŵr gwastraff Hafren Dyfrdwy a lleoliadau gollyngiadau carthion a ddigwyddodd yn ystod tymor ymdrochi 2022-23.




## BETH MAE'R DDAU GWMNI DWR YNG NGHYMRU YN EI WNEUD AM HYN?

Er mai Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy yw rhai o'r cwmnïau dŵr cyntaf i allu monitro 100% o'u hasedau carthion, dim ond dechrau datrys y broblem yw hyn. Fel sy'n wir am lawer o gwmnïau dŵr eraill, mae'r data yn cael ei ddarparu'n ôl-weithredol i raddau helaeth. Mae'n hanfodol darparu data am ollyngiadau mewn amser real a data sy'n hygyrch i gymunedau ac i'r cyhoedd.

Mae Dŵr Cymru wedi amlinellu ei uchelgais i adrodd ar 150 o safleoedd mewn amser real erbyn mis Ionawr 2024 gyda'r nod o gael y 2,300 o safleoedd yn adrodd erbyn mis Mawrth 2025.

Dim ond cychwyn y daith yw gwybod faint o garthion sy'n cael eu gollwng — casglu'r data yw'r her, cyn i'r gwaith go iawn ddechrau.

Mae angen i Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy droi eu sylw nawr at leihau eu gollyngiadau carthion sydd heb eu trin yn sylweddol, sy'n llygru traethau Cymru a mannau nofio poblogaidd mewn afonydd ledled y wlad.

Wrth i'r gwaith hwn i weithredu atebion fynd rhagddo, yng Nghymru ac ar draws gweddill y DU, mae'n hanfodol bod cwmnïau dŵr yn **BLAENORIAETHU'R DEFNYDD O ATEBION AR SAIL NATUR**. O systemau draenio cynaliadwy ac adeiladu gwlyptiroedd ar lefel leol, i brosiectau adfer ar raddfa tirwedd, mae gan natur botensial enfawr i liniaru'r pwysau ar systemau carthion ac atal y defnydd o orlifau.

Pan fyddant yn cael eu defnyddio yn y lle iawn ac yn cael gofal effeithiol, gallant fod yr opsiwn mwyaf cost-effeithiol gan hefyd arwain at y manteision canlynol: **DAL CARBON, GWELLA BIOAMRYWIAETH A LLEIHAU RISG LLIFOGYDD.**

## DAN SYLW:

# A YW D R CYMRU UWCHLAW'R GYFRAITH?

Mae Bae Ceredigion yng Ngorllewin Cymru yn gartref i rai o fywyd gwyllt morol mwyaf amrywiol a chyffrous y DU. Mae Dolffiniaid Trwyn Potel yn byw yn y bae, yn un o ddwy boblogaeth breswyl y DU, sy'n golygu fod y bae yn Ardal Cadwraeth Arbennig. Mae Afon Teifi, sy'n llifo i'r bae yn Nhraeth Poppit, hefyd yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig dynodedig sy'n golygu ei bod yn cael ei gwarchod gan y gyfraith oherwydd ei phwysigrwydd daearegol ac ecolegol.

Ond dros y flwyddyn ddiwethaf, fe ollyngodd Dŵr Cymru garthion amrwd i mewn i Afon Teifi **5.2 GWAITH Y DYDD** ar gyfartaledd[2]. Roedd Traeth Poppit (sy'n ddŵr ymdrochi sy'n cael ei ystyried yn "ardderchog" yn gyson) wedi hedfan ei Faner Las yr haf hwn er gwaethaf ei lygredd hysbys. Dim ond blwyddyn yn ôl, cafodd ei enwi'r **TRAETH BANER LAS GWAETHAF YN Y DU GYFAN**, oherwydd 79 o ddigwyddiadau gwaredu carthion[3].

Mae llygredd carthion yn Afon Teifi hefyd yn effeithio'n uniongyrchol ar un o fannau syrffio gorau Cymru yng Ngwbert. Mae rhai syrffwyr lleol yno wedi derbyn y byddant yn mynd yn sâl bob tro y byddant yn mynd yno.

Felly, does dim rhyfedd bod Afon Teifi wedi cyrraedd y penawdau'n ddiweddar. Cyfaddefodd Dŵr Cymru ei fod yn torri amodau trwyddedau ac yn gollwng carthion sydd heb eu trin mewn nifer o safleoedd trin dŵr, gydag un o'r achosion gwaethaf yn Aberteifi.

### GWEITHGARWCH ANGHYFREITHLON?

Mae gwaith trin Dŵr Cymru yn gweithredu o dan drwydded amgylcheddol a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r trwyddedau hyn yn nodi'r rheolau ar gyfer yr hyn y gall pob gorlif ei wneud.


Mae trwyddedau'n pennu'r amodau y mae'n rhaid i'r safle eu bodloni a phryd y gallant ollwng carthion. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am wirio a gorfodi cydymffurfiad â'r trwyddedau hyn.

Mae'r system trwyddedau ar gyfer gorlifo yn gymhleth, yn hen ffasiwn ac yn llawn esgusodion am ollyngiadau anghyfreithlon.

Edrychwch ar y ddwy enghraifft isod.

1. Gollyngiadau Carthion sydd heb eu Trwyddedu

Gall gwaith trin dŵr dim ond rhyddhau carthion yn gyfreithlon **OS OES GANDDO DRWYDDED**. Felly, mae hyn yn golygu bod yr holl ollyngiadau carthion sydd heb eu trwyddedu yn **ANGHYFREITHLON**. Doedd dim rhaid i ni edrych yn bell i ddod o hyd i weithgarwch amheus ar orlifoedd carthion heb eu trwyddedu.




**Ffigur 17**
Lleoliad Traeth Poppit.

Cyhoeddodd Dŵr Cymru gronfa ddata gyfan o orlifoedd carthion heb eu trwyddedu ar eu gwefan, gyda 142 o orlifoedd heb drwydded yn cael eu gollwng 4,197 gwaith y llynedd. Pam?

2. Gorlifoedd Brys

Mae gorlif penodol o'r enw gorlif brys. Dim ond pan fydd **DIGWYDDIAD TRYCHINEBUS** neu **ARGYFWNG** y bydd y gorlifoedd brys yn cael eu gollwng, fel y diffinnir yn eu trwydded.

Fe wnaeth Gorlif Brys Gwbert, sy'n effeithio ar ddŵr ymdrochi Traeth Poppit, ollwng carthion 24 GWAITH yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hyn yn dangos yn glir eu bod wedi torri amodau'r drwydded.


Yn hytrach na mynd i'r afael â'r gollyngiadau, rydyn ni'n rhagweld y bydd Dŵr Cymru yn gofyn am uwchraddio'r drwydded hon, a fyddai, yn y bôn, yn gwneud y gollyngiadau hyn yn gyfreithlon. Yn eironig, hyd yn oed pe bai'r gorlif hwn yn cael ei uwchraddio, byddai'n dal i fethu cyrraedd targedau gan na fyddai'n cael gollwng carthion mwy na thair gwaith y flwyddyn oherwydd ei effaith ar ddŵr ymdrochi.

Y llynedd, roedd gorlif brys arall yn y Fenni wedi gollwng carthion a oedd yn cyfateb i ddwywaith yr wythnos. Ydych chi wir yn credu bod 123 o fethiannau trychinebus y llynedd yn y gwaith trin carthion hwn?

### MAE'N GWBL ANNERBYNIOL.

Mae Dŵr Cymru yn defnyddio ei asedau ym mha bynnag ffordd y maen nhw'n dymuno, **DIM OTS OS OES GANDDYNT DRWYDDED, DIM OTS AM YR AMGYLCHEDD, A DIM OTS AM REOLEIDDWYR**. Os nad yw'r rhesymeg syml mewn trwyddedau'n cael ei dilyn, mae gan y cwmnïau dŵr ryddid i lygru'n barhaus a pheidio â chael cosb am wneud hynny!

Annie McKelvey, Swyddog Data Ansawdd Dŵr, a Freya Harris, Swyddog Ymgyrchoedd



CONSENT NO. BP0350201

creu lle gwell
creating a better place

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

WATER RESOURCES ACT 1991

SECTION 88 – SCHEDULE 10

(AS AMENDED BY THE ENVIRONMENT ACT 1995)

CONSENT TO DISCHARGE

TO: Environment Quality Scientist
Dŵr Cymru Cyfyngedig
Pentwyn Road
Nelson
Treharris
CF46 6LY

The **ENVIRONMENT AGENCY** ("The Agency") in pursuance of its powers under the Water Resources Act 1991 **HEREBY CONSENTS** to the making of a discharge **OF SEWAGE EFFLUENT**, as follows:

**Sewage in an Emergency**

**FROM:** GWBERT SEWAGE PUMPING STATION

**AT:** GWBERT, CARDIGAN, CEREDIGION

**TO:** CARDIGAN BAY

**SUBJECT TO** the conditions set out in the following schedule(s):

**SEWAGE IN AN EMERGENCY** **SCHEDULE NO. BP0350201 01**

Subject to the provisions of Paragraphs 7 and 8 of Schedule 10 of the Water Resources Act 1991, no notice shall be served by the Agency, altering this consent, without the agreement in writing of the consent holder, during a period of 4 years from the date this consent takes effect.

This consent is issued on the 30th day of December 2005 and takes effect on the 31st day of December 2005.

Signed ..........................

**Team Leader – Regulatory Water Quality**

**Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru**
"Maes Newydd", Llandarsi, Nedd Port Talbot. SA10 6JQ   Ffon 01792 325500   Ffacs 01792 325511

**Environment Agency Wales**
"Maes Newydd", Llandarcy, Neath Port Talbot. SA10 6JQ   Tel 01792 325500   Fax 01792 325511

**Ffigur 18**

Trwydded Gorsaf Bwmpio Gwbert.

2 (2020, 2021) Top of the Poops, accessed 30th October 2023, https://top-of-the-poops.org/company/dwr-cymru-welsh-water

3 Fresh pollution fears raised at Blue Flag Poppit Sands, accessed 30th October 2023, https://www.westerntelegraph.co.uk/news/23595939.fresh-pollution-fears-raised-blue-flag-poppit-sands/

## BETH SYDD ANGEN DIGWYDD?

Rydym yn galw ar y llywodraeth hon a'r nesaf i wneud y canlynol;

### DATGELU'R GWIR

Rydym angen tryloywder ledled y DU ynghylch llygredd carthion.

- ✔ Gwybodaeth gywir a hygyrch am ansawdd dŵr mewn amser real drwy gydol y flwyddyn
- ✔ Proses dryloyw gyda cheisiadau dŵr ymdrochi
- ✔ Profion ansawdd dŵr sy'n dangos y darlun llawn
- ✔ Tryloywder ar draws y system garthffosiaeth

### GORFODI'R GYFRAITH

Mae gennym y rheoliadau a'r deddfau sydd eu hangen arnom i roi terfyn ar lygredd carthion. Nawr mae'n rhaid i ni eu gorfodi

- ✔ Rheoleiddwyr i gynnal y gyfraith
- ✔ Mae rheoleiddwyr yn cael eu hariannu'n dda ac mae ganddynt ddigon o adnoddau
- ✔ Mae llygrwyr yn cael eu cosbi'n ariannol

### GRYMUSO DULL DAN ARWEINIAD NATUR

Harneisio pŵer natur i roi terfyn ar lygredd carthion.

- ✔ Cael gwared ar rwystrau rhag darganfod atebion sy'n seiliedig ar natur
- ✔ Mynnu bod cwmnïau dŵr yn blaenoriaethu'r defnydd o atebion arloesol ac effeithiol sy'n seiliedig ar natur